**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | 14 Hydref, 2008 |
| **TEITL** | **Adolygiad o Ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus** |
| **PWRPAS** | Ystyried newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, er canfod arbedion refeniw o £100,000 y flwyddyn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Argymhellir fod y Bwrdd yn cadarnhau barn Pwyllgor yr Amgylchedd ar newidiadau i'r gwasanaeth, fel y dangosir yn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Peter E. Evans<br>Uwch Reolwr Polisi a Perfformiad, a<br>Gwyn Morris Jones<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y Cynghorydd Arwel Pierce |

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae'r adroddiad yma yn ymdrin â'r angen i ganfod arbedion ar y gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn dilyn penderfyniad y Cyngor i dorri £100,000 y flwyddyn o'r gyllideb ar gyfer rhedeg y gwasanaeth.

1.2 Rhoddir gwybodaeth am waith sydd wedi ei wneud gan Bwyllgor yr Amgylchedd i ystyried sut i ganfod yr arbedion, a gofynnir i'r Bwrdd ystyried argymhelliad y Pwyllgor ar newidiadau i'r gwasanaeth er canfod yr arbedion angenrheidiol.

## 2. PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD

2.1 Sefydlodd y Pwyllgor weithgor gwella i ystyried newidiadau yn nhrefniadau'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus, er canfod arbedion o £100,000 yng nghostau'r gwasanaeth. Edrychodd y gweithgor ar lefel a natur y defnydd o'r holl doiledau cyhoeddus sydd dan reolaeth y Cyngor, a sefydlwyd proses i sgorio a datblygu trefn blaenoriaethu ar gyfer y toiledau. Ymgynghorwyd gyda phob aelod a chyngor cymuned/tref allai fod yn wynebu newidiadau i'r gwasanaeth yn eu hardal hwy, a rhoddodd y gweithgor sylw i'r ymatebion wrth ddatblygu rhestr o newidiadau er canfod yr arbedion dan sylw.

2.2 Adroddwyd ar ganlyniadau gwaith y gweithgor i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 16 Medi, 2008. Atodir yma gopi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ynghyd ac atodiadau sy'n dangos -

- Newidiadau argymhellir i'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus (Atodiad 1)
- Y broses blaenoriaethu, ac asesiad o gostau rhedeg pob un o doiledau cyhoeddus y Cyngor (Atodiad 2)
- Canlyniadau'r broses ymgynghori gydag aelodau a chynghorau cymuned/tref lle rhagwelwyd newidiadau i'r gwasanaeth (Atodiad 3).

2.3 Wrth gyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd, cyfeiriwyd at gais a dderbyniwyd ddiwrnod ynghynt i beidio gwneud newidiadau gyda thoiledau Dyffryn Ardudwy ac i gynnal trafodaethau gyda grŵp lleol ynghylch eu dyfodol. Barn y Pwyllgor oedd y **byddai'n bosibl mynd rhagddo i'w newid i fod ar agor yn dymhorol**, **a chynnal trafodaethau parthed cyfrifoldebau** petai grŵp lleol yn dymuno hynny.

## 3. BARN PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD

3.1 Wedi ystyried yr adroddiad, mynegwyd barn fel a ganlyn gan Bwyllgor yr Amgylchedd :-

a) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus a awgrymir gan y gweithgor a ddangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth.
b) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.

## 4. OBLYGIADAU STAFFIO

4.1 Bydd y newidiadau a gynigir yn debygol o olygu y bydd rhai gweithwyr yn colli eu swyddi, ac oriau gwaith rhai eraill yn newid.

4.2 O ganlyniad, mae trafodaethau ynghylch y newidiadau dan sylw wedi cael eu cynnal gyda Phennaeth yr Uned Darparu, sy'n ymgymryd â gwaith glanhau i'r toiledau cyhoeddus. Deellir fod y glanhawyr yn ymwybodol o'r newidiadau sydd dan sylw, ond yn amlwg ni ellir cadarnhau'r sefyllfa gyda hwy cyn i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion. Lle ni fyddai'n bosib osgoi diswyddo staff, buasai'r costau diswyddo yn cael ei ariannu o'r gronfa benodol berthnasol (cronfa gorfforaethol ar gyfer lleihau lefelau staffio er mwyn sicrhau arbedion), yn hytrach na disgyn ar unrhyw wasanaeth.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Argymhellir fod y Bwrdd yn cadarnhau barn Pwyllgor yr Amgylchedd, fel y dangosir ym Mhwynt 3.1 uchod.

**Dewi V. Rowlands**
**Cyfarwyddwr Strategol**
**DVR/GMJ/PEE/**

A. Barn yr Aelod Lleol:

Dangosir canlyniadau gwaith ymgynghori ag aelodau lleol a chynghorau cymuned/tref yn Atodiad 3 i'r adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor yr Amgylchedd.

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Fel sy'n amlwg o'r wybodaeth yn yr adroddiad, mae'r mater hwn wedi bod yn destun gwaith trylwyr iawn ac mae hynny i'w gymeradwyo. Yn amlwg, anogir parhad y trafodaethau mewn rhai achosion o ran trosglwyddo cyfrifoldebau ond rhaid i hynny ddigwydd yng nghyd-destun y rhestr toriadau a gyda golwg ar sicrhau canlyniad buan."

2. Swyddog Monitro:

"Mae'n amlwg fod proses drylwyr wedi ei dilyn i gyrraedd at yr argymhelliad yn yr adroddiad gan gynnwys ymgynghori'n lleol ac ystyried ystadegau cost/defnydd a.y.b. 'Rwyf yn fodlon fod y drefn wedi bod yn briodol ac nad oes materion eraill o briodoldeb yn codi."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Nodaf fod dibyniaeth eisoes ar yr adolygiad o ddarpariaeth toiledau cyhoeddus i gyflawni £100,000 o arbedion y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol (effaith rhan o flwyddyn yn £50,000 yn 2008/09, wedi dyrannu £50,000 o arian pontio). Rwy'n falch felly bod y Pwyllgor Craffu wedi cefnogi'r newidiadau arfaethedig er mwyn canfod yr arbedion a mantoli cyllideb y Gwasanaeth, ac y mae'n galonogol fod y Pwyllgor am i weithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion i'r dyfodol. Pe bai diffyg cefnogaeth i'r newidiadau gerbron, neu oedi yn eu gweithredu, yna byddai angen i'r Gwasanaeth ddarganfod yr arbedion mewn mannau eraill (fel rhewi gwariant ar gynnal a chadw) fyddai'n arwain at wasanaeth o ansawdd is-raddol i ddefnyddwyr.

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi: